Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Meddygfa Redlands
# Dyddiad y gweithgarwch: 26 Gorffennaf 2022

Dyddiad cyhoeddi: 6/10/2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu drwy


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN digidol 978-1-80364-949-8

© Hawlfraint y Goron 2022

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Feddygfa Redlands fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Meddygfa Redlands yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau gan feddygon teulu a ddarperir yn yr ardaloedd a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o
nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr o'r gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio'r trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis ar 26 Gorffennaf 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a'r prosesau sy'n galluogi cleifion i drefnu apwyntiadau.
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19? Beth yw map trywydd y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau o wasanaethau a ddarperir cyn COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?
- Pa drefniadau sydd mewn grym i sicrhau bod trafodaeth a phenderfyniadau 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol' yn briodol ac yn sensitif?

- Pa mor hawdd ydyw cael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd a gwasanaethau y tu allan i oriau gwaith ar hyn o bryd?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad Risg Peryglon
- Asesiad Risg Diogelwch Tân
- Asesiad Risg COVID-19

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr o'r gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedodd y staff wrthym am nifer o newidiadau a wnaed i amgylchedd y practis yn unol â chanllawiau COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys newid yr holl loriau yn y practis i lawr caled, gan ganiatáu ar gyfer glanhau mwy effeithiol. Gosodwyd sgriniau amddiffynnol hefyd o amgylch desg y dderbynfa a gosodwyd gorsafoedd hylif diheintio dwylo at ddefnydd staff a chleifion.

Dywedwyd wrthym hefyd am newidiadau a wnaed a oedd yn caniatáu i weithgareddau clinig ailddechrau, wrth gynnal cadw pellter cymdeithasol yn y practis. Roedd rhai o'r newidiadau hyn yn cynnwys cyflwyno gwasanaeth brysbennu dros y ffôn ac apwyntiadau y gellir eu harchebu ymlaen llaw, gan ei gwneud yn haws rheoli a lleihau nifer y cleifion yn y man aros.

Yn ystod y pandemig, os oedd angen apwyntiad ar glaf a oedd yn gwarchod, dywedodd y staff wrthym y byddai'n cael ei frysbennu dros y ffôn i ddechrau. Os penderfynir bod angen apwyntiad wyneb yn wyneb, byddai'r claf naill ai'n cael ei weld ar ddiwedd y dydd pan nad oedd unrhyw gleifion eraill yn y practis, neu byddai ymweliad cartref yn cael ei drefnu os oedd y risgiau'n uchel.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn darparu gwasanaethau i gleifion sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae meddygon teulu penodedig sy'n ymweld â'r cartrefi gofal yn rheolaidd ac mae'r clwstwr hefyd yn cyflogi staff eiddilwch. Mae'r staff clinigol yn dilyn y gweithdrefnau yn y cartref gofal wrth fynd i mewn i'r lleoliad.

Dywedodd y staff wrthym fod gwefan y practis yn ddwyieithog, a bod ganddynt recordiad

llais dwyieithog ar y system ffôn. Darperir holl wybodaeth y bwrdd iechyd yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mae taflenni gwybodaeth i gleifion hefyd ar gael yn y ddwy iaith.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Copi o'r polisi glanhau cyfredol
- Copïau o'r amserlenni glanhau ar gyfer y pythefnos diwethaf.
- Polisi atal a rheoli heintiau cyfredol
- Data hyfforddiant cyfredol ar gyfer yr holl staff mewn atal a rheoli heintiau

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod gan y practis bolisi atal a rheoli heintiau ar waith. Cawsom hefyd gopïau o'r polisi glanhau cyfredol ac amserlenni glanhau diweddar. Roedd pob un yn gyflawn ac yn gyfredol.

Dywedwyd wrthym hefyd fod yr holl staff clinigol yn y practis wedi cael hyfforddiant ar y ffordd gywir o ddefnyddio cyfarpar diogelu personol, gan gynnwys gwisgo a diosg[1] cyfarpar a chael gwared ar gyfarpar ar ôl ei ddefnyddio'n ddiogel. Mae posteri gwisgo a diosg hefyd yn cael eu harddangos i'r staff ac mae masgiau ar gael i gleifion yn y dderbynfa, pe baent yn anghofio dod â rhai eu hunain. Dywedodd y staff wrthym y gofynnir o hyd i gleifion wisgo masgiau yn y practis oni bai eu bod wedi'u heithrio'n feddygol.

Amlinellodd y staff y broses ar gyfer gweld cleifion yr amheuir bod ganddynt salwch heintus yn ddiogel. Byddai gofyn i gleifion o'r fath aros yn eu car ar ôl cyrraedd, hyd nes y gallai aelod o'r staff eu gadael i mewn drwy fynedfa arall. Byddai cleifion wedyn yn cael eu harwain yn syth i ystafell driniaeth ddynodedig. Byddai'r unigolion hyn yn cael eu gweld ar ddiwedd y dydd, er mwyn osgoi cyswllt â chleifion eraill.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

[1] Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg – tynnu cyfarpar diogelu personol.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom archwilio sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill ac yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Copi o'r cynllun parhad busnes
- Cofnodion cyfarfodydd staff am y tri mis diwethaf

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd yn amlwg drwy gydol y gwiriad ansawdd bod y practis wedi cynllunio'n dda ac wedi gwneud gwelliannu i'w gynorthwyo wrth fynd i'r afael â'r heriau a gyflwynwyd gan y pandemig COVID-19. Gwelsom gopi o gynllun parhad busnes a oedd yn fanwl ac yn gyfredol.

Cawsom ein hysbysu am bwysau cynyddol ar wasanaethau eilaidd. Dywedodd y staff wrthym fod hyn yn cael effaith ganlyniadol ar feddygfeydd teulu. Bydd cleifion yn mynd yn ôl at y meddyg teulu yn y pen draw oherwydd rhestrau aros mor hir mewn gofal eilaidd. Dywedodd y staff wrthym fod ap ar gael iddynt, y gallant ei ddefnyddio i gael cyngor gan arbenigwyr gofal eilaidd.

Dywedodd y staff wrthym hefyd fod cleifion yn aml yn cael eu rhyddhau'n rhy gynnar o wasanaethau gofal eilaidd oherwydd pwysau cynyddol. Yn aml nid yw gwaith papur rhyddhau yn gyflawn, ac ni roddir pecynnau gofal digonol i gleifion. Mae hyn yn aml yn arwain at feddygon teulu yn gorfod dod o hyd i'r gofal perthnasol i gleifion neu'n eu haildderbyn fel cleifion a gafodd eu rhyddhau'n aflwyddiannus.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal a gwelsom dystiolaeth bod cofnodion yn cael eu cadw.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella a phryderon uniongyrchol yn ystod ein gwiriad ansawdd y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu

yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn:

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd

- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

# Atodiad A - Cynllun gwella ar unwaith

Lleoliad:

Ward/Adran/Gwasanaeth

Dyddiad y gweithgarwch:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Nid oedd angen unrhyw welliannau ar unwaith.** | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd o'r gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad B: Cynllun gwella

Lleoliad:

Ward/Adran/Gwasanaeth

Dyddiad y gweithgarwch:

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch, sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Nid oedd angen unrhyw welliannau. | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau

bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd o'r gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**